# Arweiniad atodol

## Gwrando ar ddysgwyr mewn arolygiad

Medi 2021

# Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr mewn arolygiad - Medi 2021

## Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr mewn arolygiad - Medi 2021

**Beth yw’r diben?**
Mae’r ddogfen hon yn rhoi arweiniad pellach i arolygwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu

**Ar gyfer pwy mae’r arweiniad?**
Ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lleoliadau nas cynhelir a’r sector ôl-16/AB

**Pryd y dylid dechrau defnyddio’r arweiniad?**
Medi 2019

## CYNNWYS

**Am y ddogfen**
Datganiad hawlfraint
Ynglŷn â'r arweiniad hwn

**Arweiniad**
Cyflwyniad
Cyfathrebu effeithiol
Goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu
Gofyn cwestiynau
Gwrando effeithiol
Paru'r arddull gyfathrebu gydag anghenion y dysgwyr
Trafod materion sensitif
Cyfathrebu â dysgwyr agored i niwed
Ymwybyddiaeth risg ar gyfer arolygwyr

# Am y ddogfen

**Datganiad hawlfraint**

**Ynglŷn â'r arweiniad hwn**

# Datganiad hawlfraint

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Hawlfraint y Goron 2021:** Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

# Ynglŷn â’r arweiniad hwn

## Trosolwg

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio **Beth** rydym ni’n ei arolygu a **Sut** rydym ni’n arolygu. Fodd bynnag, rydym yn llunio **arweiniad atodol** hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae’r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau’n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw’n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy’n dod i’r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai’r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi’i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu’n gadarnhaol, i sicrhau mai’r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy’n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio’n gryf ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau’r arolygiad yn unol â’r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a’r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

# Arweiniad

**Cyflwyniad**

**Cyfathrebu effeithiol**

**Goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu**

**Gofyn cwestiynau**

**Gwrando effeithiol**

**Paru'r arddull gyfathrebu gydag anghenion y dysgwyr**

**Trafod materion sensitif**

**Cyfathrebu â dysgwyr agored i niwed**

**Ymwybyddiaeth risg ar gyfer arolygwyr**

# Cyflwyniad

Diben yr arweiniad yw helpu arolygwyr i gyfathrebu'n effeithiol gyda dysgwyr er mwyn cael gwybod eu barn nhw fel rhan o'r broses arolygu.

Yn ogystal, gall yr arweiniad helpu darparwyr i gasglu barn dysgwyr fel rhan o'u proses hunanarfarnu.

Mae gan blant hawl i'w barn gael ei hystyried pan wneir penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae ystyried barn dysgwyr o bob oedran wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn arfer dda. Bydd Estyn yn rhoi cyfle i bob dysgwr rannu ei farn yn ystod arolygiad, naill ai drwy arolwg neu gysylltiad uniongyrchol ag arolygwyr.

Mae barn dysgwyr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o gyflawniad, agweddau a lles. Hefyd, gall barn dysgwyr ddylanwadu ar y cwestiynau rydym yn eu gofyn i'r darparwr.

Trwy wrando ar ddysgwyr, bydd arolygwyr yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith, eu cynnydd a beth y mae angen iddynt ei wneud i wella. Bydd hefyd yn rhoi cyfle iddynt rannu a ydynt o'r farn eu bod yn cael cymorth, ac i ba raddau y mae'r darparwr yn cyfrannu at eu lles.

Dylid dewis y dysgwyr a fydd yn cael eu cyfweld yn ofalus er mwyn darparu ffynhonnell ddilys a dibynadwy o dystiolaeth. Nid oes unrhyw gwestiynau penodol i arolygwyr eu gofyn oherwydd bydd y cwestiynau'n cael eu pennu gan y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg gan arolygwyr ar ôl adolygu hunanarfarniad a thystiolaeth ategol y darparwr.

Bydd dysgwyr hefyd yn gallu mynegi eu barn drwy arolygon a fydd yn cael eu cynnal cyn arolygiad.

Mae'r arweiniad hwn yn cynnig mwy o gymorth i arolygwyr ar wrando ar ddysgwyr o bob oedran. Mae'n rhoi pwyslais penodol ar wrando ar ddysgwyr a all fod yn cynrychioli grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed. Mae'n disgrifio rhai o'r ffyrdd y gallai arolygwyr gynnwys y dysgwyr hyn a sicrhau bod eu barnau'n cyfrannu'n effeithiol at y broses arolygu. Fodd bynnag, dylai arolygwyr roi ystyriaeth gytbwys i farnau'r holl ddysgwyr, yn ogystal ag ystyriaeth gytbwys i'r dystiolaeth a geir o arsylwadau uniongyrchol a chraffu ar waith.

# Cyfathrebu effeithiol

Mae'r egwyddorion canlynol yn tanategu cyfathrebu effeithiol:

- rhaid sefydlu a chynnal perthynas dda gyda'r dysgwr
- dylai'r pwyslais gael ei roi ar alluogi'r dysgwr i siarad ac yna gwrando'n ofalus ar safbwynt y dysgwyr
- mae'n rhaid i arddull y cyfathrebu fod yn addas i oedran, gallu ac iaith y dysgwr

Mae sefydlu perthynas, yn enwedig mewn cyfweliad byr, yn gofyn bod y sawl sy'n cyfweld yn dangos parch ac empathi tuag at y sawl sy'n cael ei gyfweld. Mae hefyd yn cynnwys cydnabod a goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu.

Dangosir **parch** drwy ymddygiad sy'n gwneud i bobl eraill deimlo'u bod yn bwysig, o werth ac yn arbennig mewn rhyw ffordd.

Dangosir **diffuantrwydd** drwy ymddygiad sy'n cyfleu'r neges eich bod yn ddynol, bod modd ymddiried ynoch ac nad oes gennych unrhyw beth i'w guddio.

Mae **empathi** yn rhan annatod o ymddygiad sy'n dangos eich bod yn ceisio deall byd yr unigolyn arall fel y mae ef yn ei weld. Hynny yw, rydych yn gwneud ymdrech 'i weld pethau o'u safbwynt nhw'.

Mae ymddygiad o'r fath yn cynnwys:

- cyflwyno'ch hun a chofio enw'r unigolyn arall
- esbonio diben y cyfarfod
- gofyn cwestiynau gyda thact ac yn glir
- dangos eich bod yn gwrando ac yn gofyn cwestiynau i gadarnhau a gwirio dealltwriaeth
- peidio â thorri ar draws yr unigolyn na siarad drosto
- bod yn ymwybodol o'ch iaith eich corff eich hun a phobl eraill a'r emosiynau y mae'n eu cyfleu
- dangos natur gyfeillgar trwy wenu a bod yn groesawgar, gan ddangos gwerthfawrogiad i'r dysgwyr am roi o'u hamser
- ymateb yn naturiol ac mor onest ag y gallwch
- osgoi bod yn amddiffynnol

Fodd bynnag, mae angen i ni ddiogelu yn erbyn bod yn or-gyfarwydd wrth geisio gwneud i ddisgyblion deimlo'n gysurus, ac aros yn broffesiynol bob amser, er enghraifft trwy osgoi sylwadau ffwrdd-â-hi.

# Goresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu

Gall dysgwyr fod yn amharod i siarad am nifer o resymau, er enghraifft, mae'n bosibl nad ydynt yn arfer rhoi eu barn ac efallai eu bod yn dioddef o ddiffyg hyder. Mae'n bosibl bod gan ddysgwyr anhawster penodol sy'n rhwystr rhag cyfathrebu neu efallai eu bod yn ofni canlyniadau mynegi barnau negyddol. Dylem ni ystyried y lleoliad ar gyfer cyfarfodydd â dysgwyr yn ofalus. Er enghraifft, gallai dysgwyr ymlacio mwy mewn ardaloedd anffurfiol yn hytrach na swyddfa ysgol, er enghraifft.

Er mwyn lleihau'r rhwystrau hyn i'r eithaf, dylai arolygwyr:

- ddefnyddio iaith y mae dysgwyr yn ei deall drwy osgoi jargon a bod yn barod i esbonio pethau'n glir
- bod yn ymwybodol o unrhyw broblemau iechyd, namau synhwyrol neu o unrhyw gymhorthion cyfathrebu posibl y mae'r dysgwyr yn eu defnyddio
- bod yn ymwybodol o unrhyw anawsterau penodol a all rwystro canolbwyntio
- ystyried cynnwys oedolyn cyfarwydd a all gynorthwyo'r disgyblion
- esbonio pwysigrwydd a diben gwrando ar farn dysgwyr fel rhan o'r arolygiad cyfan
- dweud beth hoffent ei drafod a pham
- pwysleisio bod cymryd rhan yn y cyfarfod yn wirfoddol ac y gall y dysgwr neu'r dysgwyr adael unrhyw bryd os nad ydynt yn dymuno parhau yn y cyfarfod
- dweud wrth ddysgwyr na ddylent gyfeirio at aelodau staff unigol gan ddefnyddio'u henwau yn ystod y drafodaeth
- esbonio y bydd eu barnau'n cael eu cadw'n gyfrinachol (oni bai eu bod yn dweud rhywbeth wrth yr arolygydd a allai olygu nad ydynt yn ddiogel)
- pwysleisio na fydd yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrth arolygwyr yn cael unrhyw effaith ar eu canlyniadau mewn arholiadau neu asesiadau
- eu sicrhau na fyddant yn cael eu henwi fel unigolion ac na roddir gwybodaeth adnabod amdanynt pan fydd yr arolygwyr yn adrodd ar eu canfyddiadau
- esbonio sut bydd yr arolygwyr yn adrodd ar eu sylwadau a sut gallant gael gafael ar yr adroddiad terfynol

Pan fyddwch yn gweithio gyda grŵp o ddysgwyr, mae'n bwysig sefydlu rheolau sylfaenol ar y dechrau fel bod pawb yn y grŵp yn gallu mynegi eu barn.

Gall y rheolau sylfaenol gynnwys:

- gwrando ar ei gilydd heb dorri ar draws ei gilydd
- bod pob cyfraniad yn gyfraniad gwirfoddol
- gofyn am esboniad os nad yw rhywbeth yn cael ei ddeall

- bod yn rhaid i bawb barchu cyfrinachedd

# Gofyn cwestiynau

Gellir cael amrywiaeth o ymatebion gwahanol gan ddysgwyr o ganlyniad i'r ffordd y caiff y cwestiynau eu gofyn.

Mae rhai o'r strategaethau y gellid eu defnyddio wrth ofyn cwestiynau'n cael eu rhestru isod:

- gofyn un cwestiwn ar y tro
- rhoi amser i'r dysgwyr ymateb
- defnyddio strategaethau fel `meddwl, paru, rhannu` er mwyn annog amser meddwl
- gwneud yn siŵr bod pawb yn y grŵp yn cael cyfle i wneud cyfraniad
- defnyddio cymhorthion gweledol neu symbolau i gynorthwyo â dealltwriaeth o'ch cwestiwn
- dewis cwestiynau'n ofalus, gan gofio bod mathau gwahanol o gwestiynau'n arwain at ganlyniadau gwahanol (gweler y tabl isod)

| **Math o gwestiwn** | **Enghraifft** | **Yn ddefnyddiol ar gyfer** | **Nid yw'n ddefnyddiol ar gyfer** |
|---|---|---|---|
| Agored | Pa mor dda rydych chi'n ei wneud yma?<br>Sut gallwch chi wella...?<br>Beth sy'n digwydd pan...? | Y rhan fwyaf o bwyntiau agor/cychwyn<br>Archwilio materion a chasglu tystiolaeth | Dysgwr ag anhawster cyfathrebu oni bai bod cymorth ar gael |
| Caeedig | Sawl gwaith yr wythnos ydych chi'n cael addoli ar y cyd?<br>Pwy rydych chi'n siarad â nhw os oes problemau gennych? | Cael atebion ffeithiol penodol<br>Amser byr ar gael ar gyfer trafodaeth<br>Y dysgwr yn cael siarad yn anodd | Cael gwybodaeth sydd â sylfaen eang |
| Procio | A oes unrhyw un yn cael eu trin yn annheg?<br>Sut ydych chi wedi cael eich helpu pan fydd pethau'n anodd?<br>Beth sy'n digwydd os nad ydych yn gallu dod yma? | Sefydlu a gwirio manylion am ddigwyddiadau sydd eisoes yn hysbys neu sy'n codi o atebion i gwestiynau agored | Archwilio pynciau sy'n gallu bod yn emosiynol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Damcaniaethol | Beth fyddech chi’n ei wneud petai...?<br>Petaech chi’n gallu newid un peth am y darparwr, beth fyddai hynny?<br>Petaech chi’n rheoli’r darparwr, beth fyddech chi’n ei wneud er mwyn gwneud bywyd yn well i bawb? | Annog meddwl ehangach, am faes y maent yn anghyfarwydd ag ef | Os yw’r sefyllfa y tu hwnt i brofiad y dysgwr |
| Lluosog | Cyfres o gwestiynau neu ddatganiadau | Byth yn ddefnyddiol | Byth yn ddefnyddiol |
| Cymharu | Ai A neu B sy’n well gennych? | Archwilio anghenion a gwerthoedd.<br>Mae’n cynnig pwynt cychwyn ar gyfer trafodaeth | Pan fydd cwestiynau eraill yn afrealistig, neu, pan fydd cwestiynau eraill yn cynnig gormod o arweiniad tuag at gyfeiriad yr ateb |

Dylai arolygwyr ofyn amrywiaeth o gwestiynau sy’n ystyried agweddau gwahanol ar yr arweiniad arolygu a’r math o ddarpariaeth sy’n cael ei threfnu ar gyfer y dysgwyr.

# Gwrando effeithiol

Dylai arolygwyr ddangos eu bod yn gwrando ar ddysgwyr yn ofalus ac yn astud yn ôl eu hymddygiad a'u defnydd ar iaith.

Gallai'r datganiadau a'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwirio a chadarnhau ystyr y dysgwr:

- Mae'n swnio fel petaech yn dweud bod…yn digwydd yma. Ydw i'n gywir am hynny?
- Mae'n ymddangos eich bod yn teimlo'n… am y sefyllfa. Ydw i wedi cael yr argraff gywir?
- Nid wyf yn siŵr fy mod i'n eich deall chi'n llwyr. Ydych chi'n dweud …? Ai dyna beth rydych chi'n ei olygu?

Hefyd, gall rhai ysgogiadau syml helpu siaradwr amharod i fynd yn ei flaen:

- Mae hynny'n swnio'n ddiddorol. Dwedwch fwy wrtha' i
- Dywedwch wrtha' i am amser arall pan fydd…yn digwydd
- Ewch ymlaen – mae hyn yn ddiddorol iawn

Mae'r rhain yn aml yn cael eu geirio fel gorchmynion yn hytrach na chwestiynau, er mwyn osgoi'r ateb **'Na, galla' i ddim'** i'r math **'Allwch chi …?'** o gwestiwn.

Mae'n bwysig gofalu nad ydych yn aralleirio datganiadau'r dysgwyr mewn ffordd sy'n 'arwain y tyst'.

# Paru’r arddull gyfathrebu gydag anghenion y dysgwyr

Mae’n bwysig ystyried y ffaith na fydd oedran datblygiadol rhai dysgwyr yn cyfateb i’w hoedran cronolegol ac i’w cyfnod addysg. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd ymhlith dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig, y rhai sydd angen cymorth ychwanegol neu’r rhai sydd wedi dychwelyd i ddysgu yn ddiweddar. Yn yr achosion hyn, mae’n bwysig bod y cwestiynau o hyd yn briodol i oedran. Dylai’r ffordd o’u cyflwyno fod wedi’i gwahaniaethu, er enghraifft, trwy osgoi defnyddio jargon, a gall defnyddio symbolau gweledol fod yn ddefnyddiol ar gyfer cofnodi’r hyn sy’n well gan unigolion a gwneud dewisiadau. Mae defnyddio wynebau sy’n gwenu neu sy’n drist, symbolau Makaton , symbolau goleuadau traffig, ticiau a chroesau, defnyddio TG neu gymorth gweithiwr cymorth o ddewis yr unigolyn oll yn gallu cynorthwyo â gwrando ar ddysgwyr. Mae Makaton yn ddull o gyfathrebu gan ddefnyddio arwyddion a symbolau ac mae’n aml yn cael ei ddefnyddio fel proses gyfathrebu ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu.

Bydd rhai dysgwyr yn gallu cyfleu eu barnau eu hunain pan fyddant wedi cael ychydig o amser i feddwl. Gall trafodaeth ffurfiannol wedi’i threfnu gynnwys amser ar gyfer llunio a mynegi barnau. Yn achos dysgwyr penodol, bydd digon o rybudd ymlaen llaw ac amser i baratoi yn eu helpu nhw i gyfrannu’n ystyrlon. I bobl eraill, mae’n bosibl y bydd angen i’w dewis gyfathrebwr gymryd rhan. Byddai awyrgylch sy’n rhydd rhag pethau sy’n tynnu sylw, gan ofyn cwestiynau dros gyfres o sesiynau byr, o fudd o dan rai amgylchiadau.

Mae’r tabl canlynol yn dangos sut gallai’r cyd-destun a’r arddull gyfathrebu gael eu haddasu fel eu bod yn cyfateb i oedran a cham datblygu’r dysgwyr.

| **Cyfnod** | **Lleoliadau** | **Dulliau** | **Nodweddion sy’n gysylltiedig ag oeran** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cyfnod Sylfaen (o dan 5 oed) | Lleoliad cyfarwydd gan gynnwys dan do, yn yr awyr agored ac amser cinio. | • siarad, gan ofalu bod y plant tawelach yn cael eu cynnwys, a pharu geirfa â dealltwriaeth<br>• arsylwi ar sut mae plant yn ymddwyn<br>• tynnu lluniau<br>• rhannu llyfr<br>• ymuno â chwarae plant | Fel arfer maent yn fodlon gydag oedolion ymweliadol mewn lleoliad cyfarwydd. Mae eu geirfa'n gyfyngedig felly maent yn dehongli ymddygiad hefyd. Byddant ond yn dechrau dysgu sut i fynegi eu teimladau ar lafar. Gallant ymateb i gwestiynau gan ddweud yr hyn y maent yn meddwl y byddwch yn dymuno'i glywed. Gallant siarad am eu profiadau presennol neu fwyaf diweddar pan ofynnir iddynt 'Beth ydych chi'n fwyaf hoff o'i wneud?' |
| Y Cyfnod Sylfaen (o 5 i 7 mlwydd oed) | Yn yr ystafell ddosbarth dan do ac yn yr awyr agored, yr ardal chwarae neu amser cinio. | • siarad, gan ofalu bod y plant tawelach yn cael eu cynnwys, a pharu geirfa â dealltwriaeth<br>• rhannu llyfrau a gwrando ar blant yn darllen<br>• siarad ag unigolion wrth edrych ar eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth<br>• ymuno ag amser cylch | Fel arfer, byddant yn fodlon siarad ag ymwelwyr â'r darparwr. Efallai y byddant yn deall bod arolygu'n bwysig i'r darparwr ac i'w hathro/hathrawes. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CA2 | Yn yr ystafell ddosbarth, yr ardal chwarae neu amser cinio. Gallai grwpiau bach gyfarfod yn y llyfrgell neu mewn ystafell gyfarfod dawel. | • senarios fel: 'crëwch ysgol ddelfrydol. A yw'r ysgol hon yn debyg i'ch creadigaeth chi?'<br>• trafodaeth strwythuredig ar ystod o bynciau a ddaw o'r fframwaith arolygu<br>• siarad ag unigolion wrth edrych ar waith yn y dosbarth a gwrando ar blant yn darllen<br>• arsylwi yn y dosbarth ac amser chwarae<br>• ymuno â'r plant amser cinio | Maent yn debygol o ddeall pwysigrwydd arolygiad. Mae'n bosibl y byddant yn poeni am fynegi barnau negyddol.<br>Maent yn debygol o fod yn gyfforddus ac yn fwy parod i siarad mewn grŵp bach y tu allan i'r ystafell ddosbarth. |
| CA3 ac CA4 | Mewn ystafelloedd dosbarth. Gallai grwpiau bach gyfarfod yn llyfrgell y darparwr neu mewn ystafell gyfarfod.<br>Cyfarfod cyngor y darparwr/Eco-ysgolion/grŵp ffocws. | • trafodaeth strwythuredig ar ystod o bynciau a ddaw o'r trywydddau ymholi<br>• siarad ag unigolion wrth edrych ar waith yn y dosbarth<br>• darllen cofnodion cyngor y darparwr/pwyllgor eco/grwpiau ffocws ac ati<br>• siarad â chynrychiolwyr cyngor y darparwr/grŵp ffocws a gofyn sut maent yn ymgynghori â'u cymheiriaid a beth fuodd eu heffaith ar y darparwr<br>• y mewnbwn y mae'r dysgwyr wedi'i gael i'r adroddiad hunanarfarnu | Byddant yn deall pwysigrwydd yr arolygiad. Efallai y bydd rhai yn dioddef o ddiffyg hyder ac yn amharod i siarad mewn grŵp mawr.<br>Bydd llawer yn hyderus yn sgil cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad ac efallai y bydd angen eu hannog i wrando ar farn pobl eraill.<br>Maent yn debygol o fod yn gyfforddus ac yn fwy parod i siarad mewn grŵp bach y tu allan i'r ystafell ddosbarth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16-19 oed ac oedolion | Lleoliad gwaith arferol, ystafelloedd cyffredin y myfyrwyr, clybiau ieuenctid, prosiectau ieuenctid, ystafelloedd cyfarfod, undeb y myfyrwyr, canolfan ddysgu gymunedol. | • trafodaeth strwythuredig ar ystod o bynciau a ddaw o'r trywyddau ymholi<br>• defnyddio cwestiynau syml sy'n delio ag un mater ar y tro<br>• siarad ag unigolion wrth edrych ar waith, naill ai mewn lleoliad dysgu yn y gwaith neu mewn dosbarth<br>• darllen cofnodion undeb y myfyrwyr /pwyllgor eco /grwpiau ffocws / cyngor dysgwyr sy'n oedolion, ac ati<br>• siarad â chynrychiolwyr undeb y myfyrwyr/grwpiau ffocws a gofyn sut maent yn ymgynghori â chymheiriaid a pha effaith y maent wedi'i gweld, a pha broblemau sy'n dod i'r amlwg<br>• dadansoddi holiaduron canfyddiadau dysgwyr mewn sefydliadau AB, dysgu yn y gwaith, cwmnïau gyrfaoedd, a darpariaeth ieuenctid ac oedolion awdurdodau lleol<br>• gofyn i ddysgwyr am yr adborth y maent wedi'i gael o holiaduron<br>• siarad am y mewnbwn y mae'r dysgwyr wedi'i roi i'r adroddiad hunanarfarnu<br>• gofyn a yw unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i wrando ar eu barn | Mae'n bosibl na fydd dysgwyr bob amser yn hyderus i siarad mewn grŵp mawr ac mae'n bosibl y bydd angen help ar rai dysgwyr i strwythuro'u hatebion. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o gymorth ar grwpiau agored i niwed a'r rhai sydd wedi dychwelyd i ddysgu yn dilyn bwlch hir. Fel arall, bydd cyfathrebu yn ôl oedran cronolegol y dysgwyr yn effeithiol. |

# Trafod materion sensitif

Mae rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, yn gallu dioddef trallod neu gallant fynd yn flin pan gaiff materion sensitif eu trafod.

Dylai arolygwyr bob amser weithredu er lles pennaf diogelwch a lles dysgwyr.

Mae'n bwysig cofio bod yr arolygydd yno i ddilyn y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg a thrywyddau ymholi'r arolygiad; nid yw yno fel cynghorydd nac i roi cymorth.

Pan gaiff materion sensitif eu trafod, fel materion sy'n ymwneud â lles, presenoldeb neu'r cymorth y mae'r darparwr yn ei ddarparu, dylai arolygwyr wneud popeth yn eu gallu i atal anawsterau rhag codi. Os yw unrhyw ddysgwyr yn mynd yn flin neu'n drallodus, dylai'r arolygydd geisio'u sicrhau nhw a dylent eu hatgoffa bod modd iddynt adael y cyfarfod ar unrhyw adeg. Os ydynt yn gadael yn flin neu'n drallodus, yna dylai'r arolygydd sicrhau eu bod yn mynd i le diogel o'u dewis, neu'n gofyn am help gan rywun arall.

Mae'n rhaid rhoi gwybod am bob digwyddiad o'r fath cyn gynted â phosibl i'r Arolygydd Cofnodol ac i uwch aelod staff a rhaid i'r arolygydd wneud cofnod ysgrifenedig ohonynt.

Os yw dysgwr yn dymuno gwneud datgeliad, rhaid i'r arolygydd ddilyn Polisi a Gweithdrefnau Diogelu Estyn.

# Cyfathrebu â dysgwyr agored i niwed

Mae'n hanfodol sicrhau bod barnau dysgwyr agored i niwed, sef y dysgwyr hynny y mae eu hanghenion a'u barnau'n gallu bod yn wahanol i fwyafrif eu cymheiriaid, yn cael eu cynnwys. Er mwyn cael gwybod sut brofiad y mae'r grwpiau hyn o ddysgwyr yn ei gael o ran addysg neu hyfforddiant, mae siarad â nhw'n breifat mewn grwpiau bychain o ryw dri neu bedwar dysgwyr yn aml yn ddefnyddiol.

Mae dysgwyr agored i niwed yn cynnwys y grwpiau canlynol:

Gall **plant ifanc iawn** ei chael hi'n anodd cael eu barnau eu hunain, ac nid oes ganddynt fodd o fynegi eu barn. Mae'n debygol y byddant yn fwy cyffyrddus yn siarad ag arolygydd fel rhan o grŵp bach yn eu lleoliad arferol ac maent yn debygol o fod angen cael oedolyn cyfarwydd gyda nhw. Bydd hyn yn ddefnyddiol pan fydd iaith fynegiannol y plant yn gyfyngedig neu pan fyddant yn swil yng nghwmni dieithriaid.

Gall **dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol** fod yn fwy tebygol o gael anhawster yn defnyddio iaith lafar i gyfleu eu barnau ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt ddibynnu ar bobl eraill i gyfleu eu hymatebion. I rai, ni fydd eu hoedran gwirioneddol yn cyfateb i'w hoedran datblygiadol. Mae'n debygol na fydd y rhai sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl yn meddu ar yr ymddiriedaeth a'r hyder mewn pobl eraill sy'n hanfodol i gyfathrebu'n effeithiol.

**Yn achos dysgwyr sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol neu wahanol**, bydd angen i arolygwyr gael help arbenigol gan y bobl hynny sy'n gallu defnyddio'r dull priodol o gyfathrebu. Er enghraifft, gall hyn fod yn un o'r iaith arwyddion neu'r systemau lluniau, offer TGCh neu Braille.

Mae **dysgwyr sydd ag anawsterau iechyd corfforol** yn dibynnu ar bobl eraill am eu gofal a'u lles, ac sy'n gorfod rhoi gofal meddygol yn flaenoriaeth uwch na dysgu ac sy'n debygol o ddioddef tarfu i'w rhaglenni addysg neu hyfforddiant.

**Plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol** nad oes ganddynt lais yn y broses wahardd ac sy'n gallu dioddef tarfu sylweddol i'w haddysg, cyn ac ar ôl y gwaharddiad. Maent yn debygol o ddiflannu o addysg a hyfforddiant, ond gallant ailymddangos yn y systemau iechyd meddwl neu gyfiawnder troseddol.

**Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y gofrestr risg** y mae'n hysbys bod eu deilliannau addysg, cymdeithasol, iechyd a gyrfaol yn llawer gwaeth na deilliannau eu cymheiriaid. Maent yn fwy tebygol o gael anghenion dysgu, cymdeithasol neu emosiynol

ychwanegol ac i roi'r gorau i'w haddysg neu eu hyfforddiant yn gynnar. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddiflannu o addysg a hyfforddiant ac ailymddangos yn y systemau iechyd meddwl neu gyfiawnder troseddol.

**Plant a phobl ifanc mewn darpariaeth addysgol breswyl** sy'n debygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n debygol y bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc hyn hefyd yn blant sy'n derbyn gofal. Mae'n bosibl y byddant yn bell o'u cartref ac angen sylw penodol i'w gofal, eu lles a'u hamddiffyn rhag niwed.

**Aelodau grwpiau ethnig lleiafrifol a ffydd** sy'n gallu wynebu rhwystrau diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol rhag cyfleu eu barnau fel dysgwyr ac a all ddioddef hiliaeth. Efallai nad oes ganddynt yr ymddiriedaeth na'r hyder bod eu barnau o bwys.

**Dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol** ac sydd efallai angen cymorth er mwyn cyfathrebu ag arolygwyr.

Mae profiadau addysg **teithwyr** yn aml yn wahanol iawn i brofiadau mwyafrif eu cymheiriaid ac maent yn fwy tebygol o ddioddef allgáu cymdeithasol. Efallai nad oes ganddynt yr ymddiriedaeth na'r hyder bod eu barnau o bwys.

Gall **ffoaduriaid a cheiswyr lloches** wynebu rhwystrau diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol rhag cyfleu eu barnau fel dysgwyr a gallant ddioddef hiliaeth. Byddant wedi cael profiadau addysgol gwahanol iawn i'r rhan fwyaf o'u cymheiriaid ac mae'n bosibl y byddant wedi dioddef trawma.

Efallai bydd angen cymorth ar lawer o'r dysgwyr hyn er mwyn cyfathrebu ag arolygwyr.

# Ymwybyddiaeth risg ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau a all godi o gyfweliadau â dysgwyr.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- honiadau o ymddygiad neu sgwrs amhriodol
- trallod dysgwr yn cael ei briodoli i ymddygiad neu gwestiynu'r arolygydd, yn enwedig wrth drafod pynciau sensitif
- damwain neu anaf yn digwydd yn ystod y cyfarfod

Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn digwydd, dylai arolygwyr:

- ddilyn y cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr
- cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr yn hytrach nag unigolion pryd bynnag y bo modd
- cynnal cyfarfodydd mewn ystafelloedd sy'n hawdd eu cyrraedd ac sy'n weladwy ar safle'r darparwr
- sicrhau bod y rhai sy'n cael eu cyfweld yn gallu ymadael â'r ystafell yn hawdd os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- trefnu gweithio gydag oedolyn arall gerllaw
- adrodd unrhyw ddigwyddiad sy'n rhoi achos i bryderu i'r Arolygydd Cofnodol a chofnodi manylion y digwyddiad yn ysgrifenedig